CYNLLUN AC ASESIAD GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 15fed Ebrill 2005, am 10.30am
Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn Bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol A Williams	Cyngor Sir Penfro / APCAP
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Roy Probert	Dinas a Sir Abertawe
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (DO Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Graham Bishop	Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru
Karen Maddock-Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru

1. **Ymddiheuriadau**

Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Philip Marks	CYLCH
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Leanne Kyte	WDA Adran y De-orllewin

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 24ain Chwefror 2005**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

Eitem 8: cadarnhaodd CM ymestyn y contract dwy flynedd 'Sticky Web Design Ltd.' ar gyfer gwefan y cynllun gwastraff rhanbarthol.

Eitem 8: dywedodd GW bod y cyfarfod rhwng Cadeiryddion y grwpiau gwastraff rhanbarthol a Carwyn Jones AC wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 25ain Ebrill. Mae crynodeb yn cael ei baratoi ar gyfer y Cynghorydd Palmer.

3. **Contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol**

- **Adroddiad Monitro Cyntaf**

Cyfeiriodd CM at y ***Drafft o'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)*** a ddosbarthwyd.

Yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod diwethaf y GTRh, nodwyd er mwyn cysondeb bod yr AMB yn adlewyrchu fformat a chynnwys adroddiadau a gynhyrchwyd yn y ddau ranbarth arall. Edrychwyd ar yr AMB dudalen wrth dudalen a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol: (**Gweithredu**: CM)

- Paragraff 1.10: Diwygio i ddarllen *"..Fodd bynnag, **dylai** Adroddiadau Monitro Blynyddol*

Dilynol gwrdd â'r holl ofynion";

- Egluro drwy'r AMB a ydy'r data'n cael ei gyflwyno mewn tunellau neu gilogramau;
- Ffigurau 1 a 2: gwirio'r ffigurau ar gyfer 2002/03 a 2003/04;
- Dim data ar gael ar gyfer Targedau 2 a 3. Cytunwyd bod angen ymdrin â'r bylchau yn y data presennol cyn gynted â phosib. **Gweithredu**: ML i adrodd yn ôl ar yr Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol yn y cyfarfod nesaf;
- Paragraff 2.11: Diwygio i ddarllen*"...Dylid sylwi y **bydd** rheoliadau newydd, **a ddaw i rym ym mis Gorffennaf 2005,** yn achosi cynnydd yn y nifer o fathau o wastraff a ystyrir yn 'Beryglus'..";*
- Targed 6: Tirlenwi Gwastraff Trefol Bioddiraddadwy: mynegwyd pryder ynghylch y frawddeg *"..O'r ffigurau gellir casglu bod y rhanbarth yn dangos y duedd gywir o leihau ar gyflymder addas".* Cytunwyd y dylid diwygio'r sylw i gydnabod yr ansicrwydd presennol ynghylch y ffrwd wastraff. Yn arbennig, amlygwyd bod angen egluro'r diffiniad o wastraff trefol;
- Ffigur 8: cynnwys dyddiad ar gyfer y ffigurau;
- Paragraff 2.25: Diwygio i ddarllen*"...Mae LlCC wedi comisiynu adroddiad a gyhoeddir ar ffurf ddrafft ym mis **Mai** 2005"*;
- Mae ffigur 10 yn darparu datganiad safle ar gynnydd gweithredu'r CGRh fel rhan o bolisïau Cynllun Datblygu. Nodwyd bod rhanbarth y De-ddwyrain wedi awgrymu dangosyddion i farnu a oedd awdurdodau unigol wedi gweithredu gofynion eu CGRh yn llawn. Amlygwyd ar gyfer yr ail AMB efallai y bydd angen cytuno ar ddangosyddion ar draws Cymru. **Gweithredu**: CM i ddosbarthu Dangosyddion – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf;
- Paragraff 3.11: o ganlyniad i'r ffaith bod Atodiad 2 yn hen erbyn hyn, ei ddileu o'r AMB a hefyd unrhyw gyfeiriad ato. Mae angen o hyd am groesgyfeirio rhan o'r adroddiad at Gam 1: Adroddiad Asesu Strategol.

Cytunwyd bod pob swyddog yn adolygu'r rhannau o'r adroddiad sy'n benodol i bob awdurdod unigol ac yn rhoi gwybod am unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol erbyn diwedd dydd Llun 18fed Ebrill. **Gweithredu**: Pawb.

Wedi i Fforwm yr Aelodau gytuno ar yr AMB (29ain Ebrill), bydd copi electronig a 3 chopi caled yn cael eu cyflwyno i LlCC. **Gweithredu**: CM.

- **Adroddiad ar Wastraff Peryglus – Drafft Ymgynghori**

Cyfeiriodd GW at yr ***Adroddiad ar Wastraff Peryglus – Drafft Ymgynghori*** a ddosbarthwyd.

Sylwyd bod yr Adroddiad Drafft wedi'i gynhyrchu gan Dde-ddwyrain Cymru a'i fod wedi'i 'deilwra' i fod yn berthnasol i ranbarth y De-orllewin. Edrychwyd ar yr Adroddiad dudalen wrth dudalen a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol: (**Gweithredu**: CM)

- Para. 11: Ar hyn o bryd mae'r paragraff fel y mae, yn cyfeirio yn y bôn at gyfleusterau adwy agored. Dylid nodi bod cell ddyfeisio ar wahân yn bodoli yn y cyfleuster preifat yn Corus. Egluro a diwygio;
- Para. 14: cadarnhau'r dyddiad gweithredu fel Para. 2.11 yn yr AMB;
- Para. 15: Diwygio i ddarllen *"…Fodd bynnag, nid oes modd rhagweld unrhyw gynnydd **o ran maint...";***
- Para. 18: Ychwanegu "*Casglu – Safleoedd Amwynder Dinesig*";
- Para. 21 / 62 / 64: cyfeirio at Asesiadau Risg – a ddylid cynnwys hyn?
- Para. 33: diweddaru statws presennol;
- Para. 36: roedd LlCC ac AyrA yn anhapus gyda'r geirio gan ei fod fwy neu lai'n diystyru'r posibilrwydd o losgi gwastraff peryglus yn yr ardal. **Gweithredu**: CM i wirio statws Adroddiad y De-ddwyrain;
- Para. 46: Cynnwys troednodyn yn diffinio 'asbestos';
- Para. 50: Diwygio i ddarllen*"…O fis Gorffennaf 2005 gellir parhau i gael gwared ar asbestos mewn celloedd o'r fath ond rhaid iddo fod wedi'i wahanu'n **ffisegol** oddi wrth unrhyw wastraff*

arall";

- Para. 52: angen ei egluro;
- Tudalen 13: Diwygio'r teitl i ddarllen *"Meini Prawf Lleoliadau ar gyfer **Cynllunio** Cyfleusterau Rheoli Gwastraff"*;
- Para. 57: Ail-eirio / dileu'r frawddeg olaf;
- Para. 59 Meini Prawf Lleoliadau Cadarnhaol (tabl): cynnwys y term "*hygyrchedd*";
- Meini Prawf Lleoliadau Negyddol (tabl): Cynnwys "defnyddiau sensitif arfaethedig" yn yr arweiniad ynghylch 'amwynder' a dileu 'Gweithredu dyraniadau neu gynigion datblygu';
- Meini Prawf Lleoliadau Negyddol (tabl): arweiniad ar gadwraeth natur / ecoleg – Diwygio i ddarllen*"..y byddent yn cael effaith **negyddol** ar...";*
- Para. 64: Diwygio i ddarllen *"…Byddai hefyd yn cynghori'r Asesiad Amgylcheddol a fyddai **efallai'n** ofynnol mewn perthynas â cheisiadau **cynllunio** ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff peryglus".*

Nodwyd bod SM a ML yn dymuno ailadrodd eu pryderon ynghylch cynnwys yr adroddiad.

4. **Ymchwil Mapio GIS: Adroddiad Cynnydd LlCC**

Dywedodd SM bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio wedi'i gynnal ar 6ed Ebrill, ac roedd swyddogion o RPS, LlCC, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio a'r tri chydlynydd rhanbarthol yn bresennol. Mae cyfarfodydd dilynol y Grŵp Llywio wedi'u trefnu ar gyfer 28ain Ebrill ac 2il Mehefin.

Rhagwelir y bydd adroddiad drafft ar gael erbyn 1af Mehefin a'r adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Mehefin. Bydd seminar hyfforddi a rhannu gwybodaeth yn cael ei gynnal ar lefel Cymru gyfan ar ddydd Mawrth 12fed Gorffennaf a bydd cyflwyniadau dilynol yn cael eu trefnu ar gyfer pob un o'r grwpiau rhanbarthol.

5. **Gallu – Cyfleusterau Presennol ac Arfaethedig**

Cyfeiriodd CM at y nodyn cefnogi a ddosbarthwyd a darparodd eglurhad byr o gynnwys y mater. **Cytunwyd** y dylid trafod y mater yn fwy manwl yng nghyfarfod nesaf y GTRh yn dilyn dosbarthu papur LlCC.

6. **Cynigion ar gyfer presenoldeb yn y Grŵp Technegol**

Yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod diwethaf y GTRh, cadarnhaodd CM bod llythyrau wedi'u hanfon at Gyngor Cefn Gwlad Cymru, y Cyngor er Diogelu Cymru Wledig, Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Gwaredu Gwastraff (CGSGG), Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru, WDA, WESA, CLlLC, WRAP, y Siambr Fasnach a'r Fforwm Economaidd, i annog cyfranogiad ehangach yng ngwaith y Grŵp.

Derbyniwyd atebion oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru, Siambr Fasnach Gorllewin Cymru, CLlLC, WRAP a'r WDA. Nodwyd fodd bynnag, bod diffyg ymateb parhaol oddi wrth y Diwydiant. **Gweithredu**: SM i gysylltu ag Andy Rees i fynd â'r mater hwn ymhellach.

7. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** - I'w drefnu.

8. **Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd SM am adborth ynghylch mater BPEO ac a welir hyn yn rhwystr wrth gyflawni'r cyfleusterau gofynnol. Gallai'r mater arwain at angen adolygu'r arweiniad a amlinellir yn NCT21.

Darparodd GB amlinelliad byr o gwmpas ei waith gydag Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru. **Cytunwyd** i ddosbarthu crynodeb mwy cynhwysfawr i'r grŵp. **Gweithredu**: GB/CM.